## Plentyn y Ddaear

Meddiannant derfyngylch y ddaear,
Treisiant ymylon y nef,
A dygent y gaethglud rithiedig
I'w huffern â baner a llef.
Cadwent yn rhwym wrth yr haearn
Hen arial y gïau a'r gwaed.
Doethineb y ddaear nis arddel
A gwyw fydd y gwellt dan eu traed.

Saif yntau, y bychan aneirif,
Am ennyd yn oesoedd ei ach
Heb weled deneued y nerthoedd
Pes gwypai ar bwys yr un bach.
Er drysu aml dro yn eu dryswch
Ni ildiodd ei galon erioed:
Adnebydd y ddaear ei phlentyn,
Blodeua lle dyry ei droed.

Daw dydd y bydd mawr y rhai bychain,
Daw dydd ni bydd mwy y rhai mawr,
Daw'r bore ni wêl ond brawdoliaeth
Yn casglu teuluoedd y llawr.
O ogofâu'r nos y cerddasom
I'r gwynt am a gerddai ein gwaed;
Tosturi, O sêr, uwch ein pennau,
Amynedd, O bridd, dan ein traed.